



37 Ffordd Kingsmills
Wrecsam
LL13 8NH

01978 262588
www.tcc-wales.org.uk
office@tcc-wales.org.uk

Annwyl Gyfeillion,

**Datganiad gan yr Esgob Gregory Cameron, Noddwr TCC ac arweinwyr ffydd TCC:
Mae angen cymryd rhan mewn democratiaeth**

Daeth cyhoeddiad yr etholiad cyffredinol brys fel newyddion annisgwyl i'r rhan fwyaf ohonom ni. Efallai bod llawer ohonom ni'n rhannu barn Brenda o Fryste, gafodd ei chyfweld gan ohebydd newyddion y BBC am ei barn am gyhoeddi'r etholiad, 'Nid un arall!' meddai.

Ond, er bod blinder etholiad neu refferendwm yn ddealladwy, dydy o ddim yn gadael lle inni ddadymafael.

Pleidleisio ydy'r cam cyntaf a mwyaf syml o gymryd rhan mewn democratiaeth. Er hynny, yn etholiad cyffredinol 2015, dim ond traean o'r bobl oedd yn gymwys i bleidleisio wnaeth hynny, ac roedd hynny ar gyfer etholiad lle'r oedd disgwyl i'r canlyniad fod yn agos. Mae sylwebaeth yn y cyfryngau dros yr wythnosau diwethaf wedi awgrymu, ym mhell o fod yn rhagweld canlyniad agos, bod rhai pobl yn credu bod buddugoliaeth ysgubol yn ddeilliant realistig, yn enwedig yng Nghymru.

Mae democratiaeth yn gweithio'n dda dim ond os ydy pawb yn cymryd rhan ynddi ac yn mynegi eu barn a'u dewis gwleidyddol. Felly, ydyn ni i gyd yn gwybod beth ydy ein dewis gwleidyddol ac ydyn ni am ei arfer?

Fel arweinwyr ffydd yn gweithio gyda TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities), rydym ni'n eich annog chi i ddechrau trafod democratiaeth gyda'ch teulu, eich ffrindiau a'ch cymdogion. Os ydyn nhw'n gymwys i bleidleisio, ydyn nhw wedi cofrestru? (Y dyddiad cau i wneud hynny ydy'r 22^{ain} o Fai). Os ydyn nhw wedi cofrestru, ydyn nhw am fynd ati i bleidleisio ar yr 8^{fed} o Fehefin?

Mae cofrestru i bleidleisio yn cymryd rhyw bum munud a bydd arnoch chi angen eich rhif Yswiriant Gwladol er mwyn gwneud hynny. Fe allwch chi gofrestru ar-lein ar: www.gov.uk/register-to-vote

Mae sylwebwyr wedi rhestru tair prif thema o ran pam dydy pobl ddim yn pleidleisio: ddiffyg hyder gan y cyhoedd mewn gwleidyddion; dieithrio rhwng y rhai sy'n ymwneud â phrosesau gwleidyddol a'r cyhoedd; a bwlch rhwng disgwyliadau (gan y cyhoedd) a'r hyn mae modd ei gynnig.



TCCWales

Charity no/rhif elusen: 1086434
Company no/rhif cwmni: 4033853



37 Ffordd Kingsmills
Wreccsam
LL13 8NH

01978 262588
www.tcc-wales.org.uk
office@tcc-wales.org.uk

Dadleua Rowan Williams, cyn Archesgob Caergaint, er mwyn lleihau'r bwlch democrataidd hwn bod arnom ni angen gwleidyddiaeth ddilys a hynaws sy'n 'ail-gyfarwyddo pobl gyda rheolaeth dros eu cymunedau, cyd-werthoedd realistig, amynedd gyda gwahaniaeth a hyder yn eu gallu am drafodaethau deallus'. Y ffordd o wneud hyn ydy sicrhau bod y bobl yn rhan o'r broses ar sawl lefel ac mewn sawl dull. Mae hyn hefyd yn cynnwys cymryd rhan mewn trefniadau cymunedol, sef yr hyn mae TCC wedi bod yn ei wneud yng ngogledd-ddwyrain Cymru ers 22 mlynedd.

Mae trefnu bod pobl yn cymryd rhan mewn democratiaeth yn dechrau gyda chael pobl i siarad gyda'i gilydd. Gofynnwn ichi felly ddechrau'r sgysiau hyn. Mae arnom ni eu hangen nhw rŵan.

Yn gywir,

Yr Esgob Gregory Cameron, Noddwr TCC
Y Parchedig Dr Jennie Hurd, Synod Cymru, Yr Eglwys Fethodistaidd a Chadeirydd TCC
Y Parchedig Tracey Day, Eglwys y Nasaread, Penycae
Dr Farookh Jishi, Canolfan Diwylliant Islamaidd Wreccsam, ymddiriedolwr TCC
Stephen Moore, Cyfarfod Crynwyr Wreccsam
Y Parchedig Robert Parry, Capel y Groes, Wreccsam
Y Tad Charles Ramsay, Eglwys y Santes Fair, Y Rhyl



TCCWales

Charity no/rhif elusen: 1086434
Company no/rhif cwmni: 4033853